OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 201- Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Tre Taliesin, Ceredigion) (Gwahardd Aros) 201-

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *201-* |
| *Yn dod i rym* | *201-* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar **** 201-. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Tre Taliesin, Ceredigion) (Gwahardd Aros) 201-.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn –

mae i "bathodyn person anabl" ("*disabled person's badge")* yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(2).

mae i "disg parcio" ("*parking disc*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemtiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(3).

(2) At ddibenion y Gorchymyn hwn bernir bod cerbyd yn arddangos:-

(i) bathodyn person anabl yn y lle perthnasol:-

(a) yn achos cerbyd y mae iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos arno fel bod Rhan 1 o'r bathodyn yn

eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd, neu

(b) yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod Rhan 1 o'r bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; a

(ii) disg parcio yn y lle perthnasol:-

(a) yn achos cerbyd y mae iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disc yn cael ei arddangos arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu

(b) yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu, swyddog traffig neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ymylon y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. (1) Nid oes dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:-

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio,

mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithrediadau canlynol, sef:-

i. gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

ii. symud unrhyw rwystr i draffig;

iii. cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o'r ffordd; neu

iv. gosod, codi, newid neu drwsio, y darnau o'r gefnffordd, neu ar dir cyfagos iddynt, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw offer ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw linell delegraffig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebu 2003**(4)**;

(ch) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(d) y cerbyd i gael petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej sydd ar y darnau o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddynt;

(dd) i'r cerbyd gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(e) bod y cerbyd sy'n aros pan fo person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol;

i. pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

ii. pan fydd rhaid iddo stopio er mwyn osgoi damwain; neu

iii. pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen dan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

(2) Nid oes dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i gerbyd person anabl y mae bathodyn person anabl a disg parcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gofalu am y cerbyd, wedi marcio arnynt yr amser pan ddechreuodd y cyfnod aros) yn cael eu harddangos yn y man perthnasol arno aros ar unrhyw un o ymylon y darnau o'r gefnffordd y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, sef cyfnod y

bydd ysbaid o un awr o leiaf rhyngddo a chyfnod blaenorol o aros pan fu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar unrhyw un neu unrhyw rai o'r darnau hynny o'r gefnffordd.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 201-

**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 c.27 Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 2 a pharagraff 2 o Atodlen 1 iddi, mae'r pwerau hyn bellach wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(2)** O.S. 2000/1786
**(3)** O.S. 2000/1785
**(4)** 2003 p.21

## YR ATODLEN

### Darnau o gefnffordd yr A487 yn Nrhe Taliesin yn Sir Ceredigion.

Ochr orllewinol y darn hwnnw o gefnffordd yr A487 o bwynt 9 metr i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â'r C1094 i Lancynfelyn hyd at bwynt 24 o fetrau i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â'r C1094 i Lancynfelyn.

Ochr orllewinol y darn hwnnw o gefnffordd yr A487 o bwynt 25 o fetrau i'r de o linell ganol ei chyffordd â'r ffordd drefol ddiddosbarth a elwir Stryd y Capel hyd at bwynt 15 o fetrau i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â'r ffordd drefol ddiddosbarth a elwir Stryd y Capel.

Ochr orllewinol y darn hwnnw o gefnffordd yr A487 o bwynt 36 o fetrau i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â'r ffordd drefol ddiddosbarth a elwir Stryd y Capel hyd at bwynt 69 o fetrau i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â'r ffordd drefol ddiddosbarth a elwir Stryd y Capel.

Ochr ddwyreiniol y darn hwnnw o gefnffordd yr A487 o bwynt 8 metr i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â'r fynedfa breifat i Lys-y-Coed hyd at bwynt 275 o fetrau i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â'r fynedfa breifat i Lys-y-Coed.

## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (TRE TALIESIN, CEREDIGION) (GWAHARDD AROS) 201-

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1) a (2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd aros ar ymylon y darnau o gefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") yn Nhre Taliesin yn Sir Ceredigion, a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau yn cychwyn ar 27 Hydref 2011, gellir archwilio copi o'r Gorchymyn arfaethedig ynghyd â phlan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim, yn Swyddfa'r Post, Tal-y-bont, Ceredigion SY24 5ER yn ystod oriau agor arferol y swyddfa, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, at Lywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth ac Adfywio Strategol, Yr Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 17 Tachwedd 2011. Dalier sylw: Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu wneud sylwadau, gall y bydd angen i ni ymgynghori â phobl a sefydliadau sydd y tu allan i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori ag eraill, efallai y byddwn y trosglwyddo gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a data personol amdanoch. Er hynny, dim ond pan fydd angen ein galluogi ni i ymdrin â'r materion yr ydych wedi eu dwyn i'n sylw y byddwn yn datgelu eich manylion personol.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (detholer 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Deddfwriaeth ddrafft', 'Offerynnau Statudol Lleol Drafft', 'Gorchmynion Traffig Parhaol').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

**Darnau o gefnffordd yr A487 yn Nhre Taliesin yn Sir Ceredigion.**

Ochr orllewinol y darn hwnnw o gefnffordd yr A487 o bwynt 9 metr i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â'r C1094 i Lancynfelyn hyd at bwynt 24 o fetrau i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â'r C1094 i Lancynfelyn.

Ochr orllewinol y darn hwnnw o gefnffordd yr A487 o bwynt 25 o fetrau i'r de o linell ganol ei chyffordd â'r ffordd drefol ddiddosbarth a elwir Stryd y Capel hyd at bwynt 15 o fetrau i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â'r ffordd drefol ddiddosbarth a elwir Stryd y Capel.

Ochr orllewinol y darn hwnnw o gefnffordd yr A487 o bwynt 36 o fetrau i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â'r ffordd drefol ddiddosbarth a elwir Stryd y Capel hyd at bwynt 69 o fetrau i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â'r ffordd drefol ddiddosbarth a elwir Stryd y Capel.

Ochr ddwyreiniol y darn hwnnw o gefnffordd yr A487 o bwynt 8 metr i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â'r fynedfa breifat i Lys-y-Coed hyd at bwynt 275 o fetrau i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â'r fynedfa breifat i Lys-y-Coed.